

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Nerys Taylor (Llansannan) a gweddill ei theulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Mr Hugh Lloyd Davies. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt ac y byddant yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Morfudd Williams (Henllan), a Megan Evans (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Rydym yn eu hamgylchynu yn ein gweddïau ac yn hyderu y byddant yn teimlo'n well yn fuan. Parhawn i gofio am y cleifion eraill yn ein plith hefyd. Cyflwynwn hwy oll i'r Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ann Davies (Nantglyn) a Neil Edwards ar eu dyweddiad.

“Fy hoff ddarn o'r Beibl”

Gan ei bod yn Flwyddyn y Beibl Byw eleni, gwahoddir chi (plant ac oedolion) i gyflwyno eich hoff ddarn o'r Beibl mewn unrhyw ffurf ar gyfer "i-Grist" eleni, sef y gwasanaeth y Fro bore Sul nesaf, Mehefin 26ain. Mae croeso i chi ddarlunio eich hoff ddarn o'r Beibl mewn unrhyw gyfrwng, boed hynny mewn llun neu eiriau, i ddweud adnod, i baratoi fideo byr, i gyflwyno sgets, neu trwy unrhyw gyfrwng arall. Bwriadwn baratoi cyflwyniad PowerPoint i ddangos yr hyn fedrwn ni ar y wal yn ystod yr oedfa "i-Grist", neu os bydd amser yn caniatáu yn ystod yr oedfa, gallwch gyflwyno eich gwaith ar lafar. Gofynnwn yn garedig i chi, neu i'r arolygwyr Ysgol Sul, drefnu fod pob cyflwyniad (ynghyd â'r enwau) yn cyrraedd Mair **erbyn dydd Mercher, Mehefin 22ain**, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, plis gadewch i Mair wybod erbyn yr un dyddiad os bydd gennych waith llafar i'w gyflwyno.

I ddod

- **CYFARFOD GWEDDI'R FRO** yn Groes nos Fawrth, Mehefin 28ain am 7.30.
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**

- **Picnic Mawr 5 – 11 oed:** Gorffennaf 2
- **Cwrs Ieuentid i flynyddoedd 7 – 11:** Gorffennaf 25-29
- **Anhrefn Awst 8 – 12 oed:** Awst 8-11
- **Souled Out 15+ oed:** Awst 13-18

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn fydd yn mynd i'r Coleg, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen i chi anfon ffurflen archebu ynghyd â blaendâl i sicrhau lle.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 12: 35-40 (BCND tud.81 / BCN tud.74)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Mehefin 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 51:1-3

(BCND tud.667 / BCN tud.609)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i chi i oedfaon y Sul. Gweddïwn y byddwn fel Bro yn cael profiad personol o ras rhyfeddol ein Duw rhyfeddol heddiw.

O'r holl bethau ddigwyddodd yr wythnos ddiwethaf – y doniol, y gwych, y siomedig a'r rhyfedd – mae 'na un peth yn sefyll allan yn amlwg, sef llofruddiaeth aelod seneddol Batley a Spen, Jo Cox, brynhawn ddydd lau. Mae ein gweddïau a'n cydymdeimlad gyda'i theulu a'i ffrindiau yn yr amser dwys iawn yma. Mewn wythnos yn llawn o sôn am chwaraeon, am wleidyddiaeth, ac am chwaraeon mewn gwleidyddiaeth, mae'r drosedd hon mor ddifrifol gan ei bod hi wedi cael ei hethol i gynrychioli a cheisio gwella ei hardal. Roedd hi'n ddiuog ac yn ddiniwed o unrhyw drosedd, mewn swydd gyhoeddus yn ceisio gwneud gwahaniaeth i'w hardal leol ac ar ran ymgeiswyr lloches.

Er ei holl waith a'i holl fwriadau da, daeth hyn i gyd i ben brynhawn dydd lau. Gwelais un person ar y we yn gofyn "I ba gyfeiriad mae'n cymdeithas ni'n mynd?"

Mae ein Byd angen Yr Efengyl. Mae adegau fel yma yn dangos i ni pa mor dorredig yw ein byd. Mae'n dangos gymaint o gasineb a dicter sydd yn ein cymdeithas. Os ydan ni'n cyfuno'r digwyddiad difrifol o drist yma gyda phethau eraill sydd wedi bod ar y newyddion – cefnogwyr pêl-droed yn creu trwl ac yn ymladd yn Ffrainc; y refferendwm Ewropeidd a'r holl gasineb a thyndra mae hwnnw wedi ei greu; yr etholiadau yn America sydd fel tase nhw'n defnyddio ofn a chasineb fel tanwydd ar gyfer y dadleuon – mae'n dod yn amlwg ein bod ni fel pobl yn gwbl llygredig ein natur, nid yn unig yn ein gweithredoedd a'n geiriau.

Mewn amser fel yma, mae'n rhaid i ni fel Cristnogion rannu'r Efengyl. Dim ond yr Efengyl sydd yn gallu ac yn mynd i roi gobaith. Dim ond yr Efengyl sy'n gallu newid ein natur er mwyn i ni ddod yn bobl sy'n dangos cariad, llawenydd, heddwch dwfn, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth (Galatiaid 5:22,23). Dim ond trwy Iesu Grist mae gwir newid natur. Dim ond marwolaeth ac atgyfodiad mab Duw all fynd at wraidd ein problem fel pobl – ein pechod – a'n rhyddhau ni o'n cadwyni.

Felly, wrth i ni edrych ar y byd o'n cwmpas a sylweddoli pa mor lygredig yw gan bechod, dowch i ni beidio ag anobeithio. Mae gobaith. Mae lachawdwr.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 19^{eg}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Mr Rhys Morgan sy'n un o arweinyddion eglwys Christ Church, Glannau Dyfrdwy yn pregethu. Bydd hefyd yn rhannu ychydig am ofal yr eglwys dros rai ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr.
- Mercher – 22^{ain}
- Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Ebeneser, Trelawnyd. Yn dilyn y materion busnes, bydd anerchiad gan y Parchedig J. Ronald Williams, Caernarfon ar y testun: 'Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i'.
- Iau – 23^{ain}
- Astudiaeth Feblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 24^{ain}
- CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.

Sul nesaf – 26^{ain}
SUL Y FRO

i-Grist am 10:30

(Sylwch ar y newid amser a hefyd y newid yn nhrefniadau'r prynhawn)

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth,
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan
yng nghwmni

Mr Andy Hughes, Cyfarwyddwr Saint y Gymuned

Fe wneir casgliad arbennig yn ystod yr oedfa tuag at Gynllun Chwarae Haf, Canolfan Noddfa.

Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Gaernarfon, ac os bydd y tywydd yn caniatáu, cawn bicnic a chyfle i gymdeithasu yng Nghoed Helen cyn mynd i'r Hwylfan neu fynd am dro o gwmpas y dref. Byddwn yn ymuno **am 3.00 o'r gloch** gyda chynulleidfia Eglwys Gymunedol Noddfa (lle mae dwy weithwraig llawn amser a gyflogir gan EBC yn gweithio) mewn oedfa deuluol o dan arweiniad Mererid Mair. Mae Noddfa yn eglwys fywiog, anffurfiol a chroesawgar sy'n gwasanaethu un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gwaith plant ac ieuentid yn bwysig iawn ganddynt ac mae'n fan lle gall trigolion ardal Peblig droi i mewn am gymorth ymarferol gydag ystod eang o broblemau ac anawsterau. Mae'r eglwys hefyd yn cydlynu prosiect BARA Arfon, sef cynllun sy'n cefnogi cyn-garcharorion a theuluoedd carcharorion. (Cewch fwy o wybodaeth ar wefan www.henaduriaetharfon.org/noddfa)

(Bydd **map** o'r lleoliadau a'r manau parcio yng Nghaernarfon ar gael ar y bore Sul yn yr oedfa yn Llansannan, ond cofiwch ddod â **picnic** hefo chi!)

parhad...

Parcio: Bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr chwith y ffordd yn arwain at y Ganolfan, ond ER DIOGELWCH, gofynnwn yn garedig i chi beidio parcio o flaen y capel, nac i amharu ar y mynediad i'r tai a fferm Hendre Llan sydd ger y capel, os gwelwch yn dda.

Cadair Olwyn: Os dymunwch wneud defnydd o'r gadair olwyn sydd yn y capel, rhowch wybod i un o'r rhai fydd yn y cyntedd yn eich croesawu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 19^{eg} Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul yma – 19^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 19^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
Rhaghysbys Yn dilyn oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn ar Orffennaf 3^{ydd}, bydd Cyfarfod Eglwys ar gyfer holl aelodau Capel y Waen.

Saron a Pheniel

Sul yma – 19^{eg} Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 19^{eg} Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 19^{eg} Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa deuluol I'R DAITH yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Manylion Cyswilt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.